

pentecost

Er mai ar ddydd arbennig yn ein calendrau y dathlwn y Pentecost nid gŵyl un dydd yn unig mo'r Pentecost. Tywalltiad yr Ysbryd Glân ar ei eglwys ac ar y byd yw 'y stori,' y creu o'r newydd, yr ymweliad, y tân ysol sy'n parhau i weithio hyd heddiw. Cawn fyfyrddau pellach yr wythnos hon a'r wythnos nesaf gan ddau o Lywyddion y Sasiynau am arwyddocâd dydd y Pentecost iddynt hwy.

Addoli'r lludw neu bwydo'r tân?

Un o'r pethau sydd yn fy ysbrydoli am stori'r Pentecost yw'r ffaith bod criw nerfus, mewnblyg o ddisgyblion yr Iesu oedd yn cuddio oddi wrth bawb yn cael nerth i wynebu'r byd er mwyn sicrhau bod gweinidogaeth Iesu yn parhau. Dyma brofiad allweddol a pherthnasol i ni heddiw, un y gallwn uniaethu ag e. Dechrau taith arbennig i'r disgyblion a dechrau taith arbennig i ninnau os penderfynwn ddilyn ôl eu troed.

Taith heriol, taith gyffrous a thaith heb ddiwedd arni oherwydd mae'r alwad i weithio'r un heddiw ag y bu erioed.

Yn aml iawn, mae'r Ysbryd Glân yn ein tynnu ni allan o'n 'comfort zone' ac yn ein herio i edrych y tu allan i'r bocys yn union fel mae'r Efenngyl i fod i wneud. Fel dywedodd Dorothy Day: fel Cristnogion dylem 'comfort the afflicted and afflict the comfortable'. Cynnig hafan a herio'r gyfundrefn, dyna neges y Pentecost.

Y dyddiau hyn fe welwn gymaint o anghyfiawnder yn ein cymdeithas ond yr un yw'r her sef i beidio bod yn fewnblyg; peidio gwrthod ymateb; peidio cuddio o'r byd ond yn hytrach i gamu allan, i ymateb i'r problemau ac i weithredu i ddiwallu'r anghenion o'n cwmpas.

Popeth yn iawn meddech chi ond sut allwn ni wneud hyn? Mae'r dasg yn rhy fawr, mae'r her yn rhy anodd. Serch hynny, bydd nifer ohonom yr adeg yma yn casglu a threfnu gweithgareddau i Gymorth Cristnogol. Gwyddom am waith eglwysi ac unigolion sy'n cyfrannu drwy redeg banciau bwyd, bod yn Fugeiliaid y Stryd, gwneud gwaith yn bwydo a llochesu'r digartref a llu o wasanaethau clodwiw eraill. Dyma'r ymateb ymarferol. A na, dydy hi ddim yn hawdd bob amser.

Ni chawsom addewid y byddai'n hawdd ond fe gawsom addewid o gwmni'r Iesu ar hyd y daith ac oherwydd hynny fe gawn nerth, ysbrydoliaeth, cefnogaeth a chysur.

Fe welwn ni hefyd naid ffydd criw'r Eglwys Fore yn ymestyn allan i fod yn fudiad cynhwysol, eangfrydig eu hapêl yn hytrach na datblygu'n sect lddewig gul fyddai wedi diflannu. Dyma her arall i ni heddiw, ymestyn allan a sicrhau nad rhywbeth a berthyn i'r oes a fu yw'r Eglwys. Fel dywedodd y cyfansoddwr Mahler, 'tradition is not the worship of ashes but the preservation of fire.' Ein braint a'n cyfrifoldeb yw sicrhau bod y fflam yn fyw ac yn llosgi'n llachar. Mae neges y Pentecost yn gwbl berthnasol o

ystyried yr holl anghydfodau led led y byd. Gobeithio y gwelwn fflam gobaith yn tanio yn hytrach na llwch anobaith.

Gadewch i ni ymateb i her y Pentecost a gadael i'r Ysbryd ein symud a'n hysgwyd hyd yn oed i barhau ar y daith heriol hon, i ddyfalbarhau. Awgrymir y dylem gerdded 10,000 o gamau'r dydd er lles iechyd ein corff. Hoffwn awgrymu er lles yr Hen Gorff dylem barhau i gamu ymlaen a pheidio aros yn llonydd. Fel dywedodd Martin Luther King, 'if you can't fly then run, if you can't run then walk, if you can't walk then crawl, but whatever you do you have to keep moving forward.'

*Parch Evan Morgan
Llywydd y Gymdeithasfa yn y De*

Creu Hanes

Roedd y byd i gyd yn siarad am ddatblygiadau yng Ngogledd Corea, am gytundeb niwclear efo Iran, am y Brecksodus sydd ar ein gwarthaf. Pob un yn ddigwyddiadau o bwys, a phob un yn haeddu'n sylw.

Ac ymhlith aelodau Eglwys Bresbyteraidd Cymru gwelwyd hanes yn cael ei greu. Doedd o ddim ar dudalennau flaen papurau newydd ein dydd. Ac nid ar *Rownd a Rownd* neu *Bobl y Cwm* y cafwyd y stori. Ond yn ystod gwanwyn 2018, am y tro cyntaf erioed yn hanes Eglwys Bresbyteraidd Cymru roedd pob un o lywyddion y Cymdeithasfa oedd yn ferched. Cam o bwys ac achos diolch.

Llongyfarchiadau i'r Margaret Jones Parch Olwen Williams a Ruth Wynne am greu hanes yn ein plith.

